Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Hydref 2016

Annwyl Simon

**BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU)**

Diolch ichi am eich llythyr, dyddiedig 5 Hydref, ac am rannu'r thema hon sy'n dod i'r amlwg cyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1. Rwy'n croesawu'r diddordeb yn y ffordd y byddai'r Bil yn cael ei roi ar waith yn ymarferol ac yn cydnabod bod hwn yn fater cymhleth a heriol. Rwyf hefyd yn awyddus iawn i helpu a chefnogi'r Pwyllgor a'r rhanddeiliaid ym mha bynnag ffordd sy'n bosibl.

Bydd canllawiau o safon uchel, sy'n effeithiol ac yn hawdd eu defnyddio yn hanfodol bwysig i drethdalwyr ac i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) er mwyn sicrhau bod y broses casglu a rheoli trethi yn effeithlon. Yn fy marn i, mae datblygu canllawiau gweithredol a chyngor yn broses ymgynghorol gyda threthdalwyr ac asiantau i sicrhau bod y canllawiau'n diwallu eu hanghenion. Mae hwn yn gyfle i ACC ddatblygu ac atgyfnerthu perthynas waith gref gyda threthdalwyr ac asiantau, ac roeddwn yn rhagweld y byddai'r broses hon yn cychwyn ar sail Deddf a basiwyd gan y Cynulliad. Yn unol â'r dull hwn o weithredu, ac yn gyson â CThEM a Chyllid yr Alban, mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi mai mater i ACC fydd paratoi a chyhoeddi canllawiau i gynorthwyo'r broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith, a diweddaru'r canllawiau hynny dros amser.

Rwy'n awyddus i gefnogi dealltwriaeth y Pwyllgor o'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys goblygiadau gweithredol y darpariaethau, yn ystod ei thaith drwy'r Cynulliad. O ran yr adrannau penodol, sef adrannau 8 (Trafodiadau cysylltiol), 71 a 72 (Ystyr eiddo preswyl/annedd), mae'r darpariaethau hyn yn gyson i raddau helaeth â darpariaethau treth dir y dreth stamp (SDLT) a'r dreth trafodiadau tir ac adeiladau (LBTT). Man cychwyn ACC ar gyfer y drafodaeth i ddatblygu'r canllawiau fydd canllawiau presennol CThEM a Chyllid yr Alban. Rwyf wedi cynnwys y rhain er gwybodaeth yn **Atodiad 1**.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y rheol wedi'i thargedu yn erbyn osgoi trethi y mae adran 31 yn darparu ar ei chyfer yn berthnasol i bob hawliad am ryddhad a wneir gan drethdalwyr. Er bod y rheol yn un arloesol, mae wedi'i modelu ar nifer o reolau presennol wedi'u targedu yn erbyn osgoi trethi a geir mewn deddfwriaeth SDLT, megis y rhai ym mharagraff 18 o Atodlen 2A, paragraff 2(4A) o Atodlen 7, a pharagraff 1(3) o Atodlen 8 o Ddeddf Cyllid 2003. Rwy'n cydnabod bod angen canllawiau ymarferol ar y rheol newydd hon, ac rwy'n cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid ynghylch y canllawiau presennol. Oherwydd hyn, rwy'n awyddus i sicrhau bod ACC yn cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu'r canllawiau newydd hyn ar yr egwyddorion sy'n sail i'r rheol hon. Yn y cyfamser, rydym wedi ceisio darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch y derminoleg a ddefnyddir yn y rheol hon ar dudalennau 81-2 o'r Nodiadau Esboniadol. Mae hyn yn cynnwys esboniad o sut y bwriedir rhoi'r rheol ar waith yn ymarferol.

Byddai fy swyddogion yn hapus i ddarparu sesiynau briffo technegol pellach pe byddai hynny o gymorth i'r Pwyllgor ddeall rhai o'r materion a'r blaenoriaethau o ran gweithredu'r Bil hwn, yn ogystal â'r broses o ddatblygu canllawiau.

Rwy'n awyddus i gynorthwyo'r Pwyllgor os oes unrhyw beth pellach a fyddai o gymorth iddo i gefnogi'r gwaith hwn.

Yn gywir

Mark

Mark Drakeford AC/AM
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

## ATODIAD 1 - Canllawiau SDLT AC LBTT

## Canllawiau CThEM

- **Trafodiadau cysylltiol**

Prosesu: Canllawiau pellach ar lenwi ffurflenni SDLT1: Canllawiau pellach ar gyfer cwestiwn 13 SDLT1, trafodiadau cysylltiol
https://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/stamp-duty-land-tax-manual/sdltm62080

Rhoi ar waith: Trafodiadau cysylltiol:
https://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/stamp-duty-land-tax-manual/sdltm30100

Rhoi ar waith: Cyd-brynwyr:
https://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/stamp-duty-land-tax-manual/sdltm31600

Rhoi ar waith: Cronfeydd Pensiwn a thrafodiadau cysylltiol:
https://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/stamp-duty-land-tax-manual/sdltm31820

- **Ystyr eiddo preswyl**

Cwmpas: beth sy'n drethadwy: trafodiadau tir: diffiniad o eiddo amhreswyl FA03/S116:
https://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/stamp-duty-land-tax-manual/sdltm00360

Cwmpas: beth sy'n drethadwy: trafodiadau tir: eiddo preswyl ac amhreswyl: nodiadau pellach
https://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/stamp-duty-land-tax-manual/sdltm00365

## Canllawiau LBTT

- **Trafodiadau cysylltiol**

LBTT2008 – Trafodiadau cysylltiol:
https://www.revenue.scot/land-buildings-transaction-tax/guidance/lbtt-legislation-guidance/determining-chargeable/lbtt2008

- **Ystyr eiddo preswyl**

LBTT4010 – Ystyr eiddo preswyl
https://www.revenue.scot/land-buildings-transaction-tax/guidance/lbtt-legislation-guidance/tax-return/lbtt4010